Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon,
Greenfield Terrace,
Glancynon,
Abercynon,
Rhondda Cynon Taf
CF45 4TH

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2012**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/09/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd ddwyieithog ddynodedig yw Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon. Mae'n gwasanaethu tref Abercynon a chymunedau eraill yng ngwaelod Dyffryn Cynon. Mae 337 o ddisgyblion llawn amser yn yr ysgol, gan gynnwys 45 o blant o oedran meithrin rhan a llawn amser. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sy'n ddifreintiedig. Mae 18.1% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, sydd ychydig yn is na'r canran cenedlaethol.

Daw y rhan fwyaf o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae 1.2% o gefndir ethnig lleiafrifol, sy'n is na chanran yr awdurdod lleol. Mae gan oddeutu 11% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol sydd yn llawer is na'r canrannau cenedlaethol. Mae un disgybl â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol.

Ers yr arolygiad blaenorol mae uwch arweinwyr yr ysgol wedi newid. Cafodd pennaeth newydd ei benodi ym mis Ionawr 2011 ac ef yw'r trydydd ers yr arolwg blaenorol ym mis Mai, 2006. Roedd un aelod o'r staff ar gyfnod mamolaeth yn ystod yr arolygiad.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Abercynon yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £2759 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £6,499 a'r isafswm yw £2,788. Mae Ysgol Gynradd Abercynon yn safle 103 o'r 114 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae elfennau o berfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac mae medrau llythrennedd yn dda yn y Cyfnod Sylfaen;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu; a
- chaiff iechyd a lles y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol.

Er hynny, digonol yw'r perfformiad cyfredol oherwydd:

- nid oes digon o gynnydd ym medrau darllen ac ysgrifennu estynedig llawer o ddisgyblion yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2;
- nid oes digon o her i sicrhau fod y disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni'n dda; ac
- er bod systemau asesu yn datblygu nid ydynt eto yn ddigon cadarn, nid yw asesu ar gyfer dysgu wedi datblygu'n llwyr ac nid yw'r marcio bob amser yn dangos yn ddigon clir sut i wella ansawdd a chynnwys y gwaith.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth wedi cyflwyno nifer o flaengareddau buddiol sydd wedi pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad yr ysgol;
- sustemau hunan-arfarnu treiddgar yn eu lle sydd yn arwain at ddarlun dilys o'r agweddau lle mae angen gwelliant; a'r
- cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau clir a strategaethau addas ar gyfer eu gweithredu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau darllen ac ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2;

A2 ddarparu mwy o gyfleoedd i hybu medrau meddwl disgyblion a sicrhau eu bod yn fwy annibynnol fel dysgwyr;

A3 sicrhau gweithgareddau dysgu sy'n ymestyn yn llawn disgyblion o bob gallu, gan gynnwys y disgyblion mwyaf galluog; ac

A4 atgyfnerthu’r strategaethau asesu.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r *argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol ac yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn y nodau dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt yn dangos gallu cynyddol i weithio'n annibynnol a digonol yn unig yw eu medrau meddwl. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson a pharhaus, ac mae eu llyfrau gwaith yn dangos eu bod yn cyrraedd safonau sy'n dda.

Ar y cyfan, mae medrau llafar disgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Dônt yn gynyddol hyderus wrth siarad am eu gwaith, a hynny yn y ddwy iaith, gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Mae disgyblion yn dangos parodrwydd i gynnig ymatebion pan gânt eu holi gan eu hathrawon. Mae rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd, gyda disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn dod yn rhugl yn y Gymraeg yn fuan.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Cyfnod Sylfaen, ond yng nghyfnod allweddol 2 digonol yn unig yw medrau darllen llawer o ddisgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn magu diddordeb mewn llyfrau ac yn datblygu'n ddarllenwyr eiddgar. Gall disgyblion y Cyfnod Sylfaen a rhai o gyfnod allweddol 2 drafod yn frwd y cymeriadau a'r digwyddiadau yn y storïau maent wedi eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ymchwilio yn hyderus i gywain gwybodaeth ar faterion amrywiol, gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu i gyflwyno gwybodaeth. Nid yw disgyblion o allu uwch yn datblygu'n llawn eu gallu i ymateb i lyfrau.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cychwynnol priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi. Yng nghyfnod allweddol 2, mae lleiafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu i ystod gynyddol o bwrpasau yn y ddwy iaith, yn cynnwys mynegi barn ar faterion cyfoes. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o ddefnydd o fedrau ail-ddrafftio i wella ar eu hymdrechion cyntaf. Maent yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig mewn pynciau eraill fel hanes, ond nid yw'r agwedd hon wedi ei datblygu'n llawn. Nid yw disgyblion o allu uwch yn datblygu'n llawn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyfran y disgyblion saith mlwydd oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyffredinol wedi cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae hyn yn aml wedi gosod yr ysgol

ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl. Mae'r canran a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 3) wedi amrywio dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu patrwm clir o welliant yng nghyflawniadau disgyblion. Mae'r gyfran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) dros gyfnod yn gyffredinol wedi bod o gwmpas neu'n uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r canlyniadau wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl. Mae cyflawniadau'r merched, yn arbennig ar lefel 5, yn arwyddocaol well na'r bechgyn, yn enwedig yn Saesneg a'r Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn gwrtais a siriol wrth ymwneud â'i gilydd ac yn medru uniaethu'n dda gydag oedolion. Mae eu hymddygiad a'u hagweddau'n adlewyrchu eu cyfranogiad llawn mewn dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn. Maent yn mynegi barn, yn gwneud penderfyniadau am eu bywyd yn yr ysgol ac yn mwynhau ysgwyddo'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau er budd yr ysgol ac er budd i eraill.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agweddau positif tuag at fyw a bwyta'n iach. Maent yn mwynhau gweithgareddau corfforol mewn gwersi, clybiau ar ôl ysgol ac yn ystod teithiau preswyl.

Mae canran presenoldeb yr ysgol gyfer 2010 - 2011 yn 91.03% sy'n is na'r canrannau cenedlaethol a'r teulu. Mae absenoldeb heb ganiatâd yn uwch na'r ffigurau ar gyfer yr Awdurdod Lleol a Chymru dros y bum mlynedd ddiwethaf. Serch hynny, mae'r ysgol yn gweithio i wella lefel presenoldeb ac yn ymwybodol o werth hynny i les cyffredinol y disgyblion ac, o ganlyniad, cododd canran presenoldeb yn ystod y ddau dymor cyntaf yn 2011-2012 er bod canran tymor yr Haf hyd yma yn 90.6%.

Mae gan yr ysgol Gyngor Ysgol, Pwyllgor Eco a Phwyllgor Iachus ac mae'r disgyblion yn mwynhau ysgwyddo'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau er budd yr ysgol ac eraill. Maent oll wedi cyfarfod â'r Corff Llywodraethwyr ac mae'r disgyblion yn rhan o gyfweld â phenodiadau staff yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Darperir ystod o brofiadau diddorol sydd yn ennyn diddordeb ac yn ymateb i anghenion llawer o ddisgyblion. Mae'r gweithgareddau yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol yn llawn. Serch hynny, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn cynnig digon o her i ddisgyblion o allu uwch ac mae llawer gormod o daflenni gwaith yn y llyfrau sy'n llesteirio cynnydd disgyblion mewn rhai dosbarthiadau.

Ar y cyfan, mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu'n effeithiol ac yn sicrhau fod y disgyblion yn elwa ar weithgareddau ysgogol a bywiog. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynlluniau tymor hir yn cynnig digon o arweiniad er mwyn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol a datblygu eu medrau yn effeithiol.

Cynllunnir yn effeithiol ar gyfer datblygiad medrau cyfathrebu yn y Cyfnod Sylfaen, ond nid yw'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith yn llwyr effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ar draws yr ysgol.

Rhoddir sylw da i'r Dimensiwn Cymreig ac mae'r ysgol yn trefnu gweithgareddau amrywiol er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn deall a dathlu diwylliant Cymru.

Ceir darpariaeth effeithiol i alluogi'r disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang a gweithreda'r ysgol mewn modd cynaliadwy. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u dyletswydd i helpu eraill o gefndiroedd llai ffodus na hwy ac maent yn casglu arian at elusennau yn rheolaidd.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn dda. Lle mae'r addysgu'n effeithiol, mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol da. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu i ennyn diddordeb bron pob disgybl. Mae perthynas waith llwyddiannus rhwng disgyblion, athrawon a'r staff cynorthwyol. Crëir amgylchedd dysgu ysgogol gyda chwestiynu pwrpasol sy'n cyfoethogi'r dysgu. Yn y gwersi effeithiol mae'r athrawon yn fodelau iaith dda yn y Gymraeg a Saesneg.

Mewn nifer fechan o wersi lle mae'r addysgu'n ddigonol, mae diffyg cyflymder i'r sesiynau ac mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel, yn enwedig o ran herio'r disgyblion mwy abl.

Er bod gan yr ysgol nifer o brosesau asesu newydd addas, gan gynnwys cyfundrefn asesu cyflawniad disgyblion, gosod targedau a thracio cynnydd, nid ydynt eto wedi ymwreiddio'n llwyr.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau ymsefydlu yng ngweithdrefnau'r ysgol ac mae meini prawf llwyddiant bellach yn cael sylw priodol ac yn cyfeirio'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith. Mae marcio gwaith y disgyblion yn anghyson ar adegau gan nad yw bob amser yn dangos yn glir y ffordd i wella eu gwaith.

Mae'r adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion statudol, ac yn rhoi sylw da i gynnydd a datblygiad eu plant. Dangosant y ffordd ymlaen ac mae cyfle i bob disgybl hunan asesu ei pherfformiad yn ystod y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gweithdrefnau a pholisïau effeithiol yn eu lle i sicrhau gofal a chymorth ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Cyfranoga'r sesiynau cydaddoli yn arwyddocaol at greu awyrgylch gweddigar, gofalgar ac ysbrydol.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ei chynllunio'n briodol o fewn gwaith y dosbarthiadau. Rhoir cyfle i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb dros iechyd a lles eu cyd-ddisgyblion ac ymfalchïant yn eu swyddogaethau. Mae gweithdrefnau trwyadl ar waith i ddileu ac i ddelio gydag unrhyw elfen o fwlio.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r systemau trylwyr sydd yn eu lle ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Caiff y disgyblion eu hadnabod yn fuan, a sicrheir cynhaliaeth ychwanegol da trwy ddefnyddio amrywiaeth o raglenni ysgogol. Caiff cynlluniau addysg unigol a ddarperir ar gyfer y disgyblion eu hadolygu'n rheolaidd a'u haddasu mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio strategaeth bwrpasol ar gyfer adnabod disgyblion mwy abl a thalentog.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn un croesawus a chyfeillgar ac mae 4C yr ysgol, sef Cymreictod, Caredigrwydd, Cwrteisi a Cheisio'n gorau glas, yn cael ei ymgorffori yng ngweithgarwch yr ysgol. Caiff pawb gyfle i fod yn rhan o gymuned yr ysgol. Mae yma ethos o barch at eraill a dengys y disgyblion a'r staff awydd i helpu a chefnogi ei gilydd.

Mae polisïau addas sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol ac mae'r rhain yn hysbys i bawb.

Cedwir safle'r ysgol yn lan a thaclus. Mae gwaith da wedi ei wneud i wella'r amgylchedd dysgu mewnol gan ddefnyddio arddangosfeydd lliwgar amrywiol o waith y disgyblion a'u gweithgarwch drwy'r gwahanol bwyllgorau. Serch hynny, mae'r ysgol am wella agweddau o'r adeilad, cyflwr y toiledau a'r amgylchedd allanol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol iawn. Mae ganddo weledigaeth glir ynglŷn â sut mae angen i'r ysgol barhau i ddatblygu. Mae ei rheolaeth yn bwrpasol a chynhwysol ac yn sicrhau cefnogaeth llywodraethwyr, staff, y disgyblion a'r gymuned. Arweiniodd broses drylwyr a chynhwysol o newid gan lwyddo i sicrhau ymrwymiad yr holl randaliad i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gosod amcanion a thargedau clir er mwyn sicrhau datblygiad pellach yr ysgol ac mae pob aelod o'r staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r blaenoriaethau ac o werthoedd yr ysgol.

Mae ansawdd cyffredinol cydlynu meysydd cyfrifoldeb yn dda. O ganlyniad i ddull cynhwysol y pennaeth o arwain, mae cydlynwyr pynciau yn cymryd cyfrifoldeb llawn am eu meysydd, gan lunio polisïau a chynlluniau gweithredu priodol. Seiliwyd cynlluniau gwella yn gryf ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac mae'r ffordd y

mae'r pennaeth wedi cydlynu'r blaenoriaethau hyn fel sail i'w weledigaeth yn gryfder amlwg. Er enghraifft, mae blaenoriaeth uchel wedi ei rhoi i hyrwyddo a gwella safonau llythrennedd a rhifedd ac i sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu da.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol, yn adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddo ystod dda o bwyllgorau. Mae llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n rhagweithiol at hunan-arfarnu'r ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn cwrdd â'r gofynion statudol a rheolaethol yn llawn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae ymrwymiad da i hybu gwelliant ac mae'r gweithdrefnau hunan-arfarnu yn adnabod cryfderau a meysydd gwella yn dda. Mae'r trefniadau hunan-arfarnu yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad ac yn ymgorffori rhaglen gynhwysfawr o arfarnu holl waith yr ysgol dros gylch pendant. Mae ffocws clir i'r gwaith ar wella safonau cyflawniad disgyblion.

Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio ystod effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol sy'n cynnwys arfarniadau arweinwyr pynciol, dadansoddiad o asesiadau o gynnydd disgyblion a holiaduron. Rhoddir ystyriaeth addas i argymhellion gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol ac mae anghenion gwella'r cyngor ysgol yn cael blaenoriaeth yng nghynlluniau datblygu'r ysgol.

Mae aelodau'r staff yn cyfrannu'n effeithiol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gwella. Mae'r rhain yn cynnwys ystod dda o weithdrefnau perthnasol gan adnabod aelodau staff a chyfrifoldeb dros eu gweithredu. Maent hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni clir ar gyfer eu cwblhau. Mae trefniadau hunan-arfarnu a chynllunio gwelliant wedi sefydlu'n dda ym mywyd yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda at wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i argymhellion yr arolwg diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod dda o bartneriaethau gyda rhieni a gofalwyr, darparwyr addysgol eraill a'r gymuned leol. Mae llawer o'r rhieni yn cydweithio'n effeithiol ac mae ychydig wedi cyfrannu'n dda at ddatblygu gardd yr ysgol ac agweddau eraill o'r tiroedd allanol. Mae'r cyswllt dydd i ddydd, a'r trefniadau cysylltu drwy gylchlythyr, y wefan a neges-destun yn sicrhau bod rhieni yn derbyn gwybodaeth addas ac amserol am fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda'r cylch meithrin yn y Gorlan a'r ysgolion uwchradd y bydd disgyblion yn trosglwyddo iddynt. Mae ystod effeithiol o weithgareddau pontio yn hybu lles y disgyblion ac yn hwyluso elfennau o barhad yn eu gwaith a'u profiad. Mae cysylltiadau da yn bodoli â cholegau a darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon ac mae'r ysgol yn cyfrannu'n rheolaidd at yr agweddau ymarferol o hyfforddi myfyrwyr. Mae'r ysgol yn elwa o'i chydweithio agos ag ysgolion eraill o fewn teuluoedd yr ysgolion uwchradd lleol, sydd nawr yn cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cynorthwyol cymwys a chânt eu defnyddio'n bwrpasol. Cafodd adnoddau dysgu'r ysgol eu hadolygu a'u hadnewyddu'n drwyadl yn ddiweddar. Enghraifft dda o hyn yw'r buddsoddiad llwyddiannus mewn gliniaduron newydd.

Mae systemau rheoli perfformiad wedi ymsefydlu'n dda yn yr ysgol. Caiff hyfforddiant ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ac unigolion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi'i threfnu'n dda. Mae athrawon yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn effeithiol.
Rheolir gwariant cyllid yr ysgol yn ofalus gan y pennaeth gyda chymorth swyddog yr awdurdod lleol, ac o ganlyniad llwyddwyd i ddiddymu'r gorwariant blaenorol.

O ystyried deilliannau disgyblion, digonol yw'r gwerth am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Nid oedd deilliannau diwedd cyfnod allweddol 1 ar gyfer 2011 cystal. Serch hynny, mae deilliannau'r ysgol rhwng 2007 a 2011 yn gyffredinol dda pan gânt eu cymharu gyda chanlyniadau asesiadau ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim. Rhwng 2007 a 2011 roedd deilliannau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 yn gosod yr ysgol naill ai ymhlith chwarter uchaf neu hanner uchaf ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion â hawl i bryd am ddim. Roedd yr ysgol ymhlith chwarter uchaf ysgolion o safbwynt canran y plant yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 1(sef yn cyflawni lefel 2 neu well mewn cyfuniad o Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn 2007, 2009 a 2010.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch na'r lefel disgwyliedig, (lefel 3) yn aml wedi amrywio dros y pum mlynedd ddiwethaf ac yn is na chyfartaledd y teulu yn Gymraeg yn 2011. Ar y cyfan, mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Nid yw disgyblion sydd yn derbyn pryd am ddim yn cyflawni llawn cystal â disgyblion sy'n talu am eu prydau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r canlyniadau yn y dangosydd pwnc craidd yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi bod ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg o safbwynt niferoedd plant cinio am ddim. Yn gyffredinol, amrywiodd y niferoedd sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) dros y tair blynedd flaenorol. Ar y cyfan, perfformiodd merched yn well na bechgyn dros y tair blynedd flaenorol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron disgyblion**

Ymatebodd 100 o ddisgyblion i'r holiadur. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn credu bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dweud bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu ofidio. Mae bron pob disgybl yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach ond mae llawer yn dweud bod llawer o gyfleoedd am ymarfer corff rheolaidd yn yr ysgol. Mae born pob disgybl o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Cred llawer bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith a bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol. Mae llawer yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith, ond mae traean yn credu nad yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Holiaduron rhieni**

Derbyniwyd 12 o atebion i'r holiaduron rhieni. Yn gyffredinol, mae ymatebion yr ysgol yn debyg i ymatebion ar draws Cymru. Yr oedd pob un o'r farn bod yr addysgu yn dda, bod staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau, bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol a bod eu plant yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yno. Dywedodd y rhan fwyaf o rieni bod eu plant yn hoffi'r ysgol, bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn credu bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. Mae llawer yn credu bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf o addysg. Yr oedd pob un o'r farn fod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch a bod eu plant yn cael eu hannog i gadw'n iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Cred pob un o'r rhieni bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. A thua'r un nifer sy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem ac sy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Cred llawer fod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Eleri Hurley | Arolygydd Tîm |
| Mr Enir Morgan | Arolygydd Tîm |
| Dr Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Amanda Lawrence | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Jonathan Cooper | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.